Hugan Fach Goch

Un tro roedd merch o'r enw Hugan Fach Goch yn byw gyda'i mam yn ymyl coedwig fawr.

Yn gynnar un bore aeth Hugan Fach Goch i weld ei nain oedd yn sâl, efo basged o fwyd.

Yn y fasged roedd cacen siocled, banana blasus a brechdan gaws.

Cerddodd a cherddodd a cherddodd Hugan Fach Goch drwy'r goedwig.

Yn sydyn, gwelodd flaidd mawr barus. "Mr Blaidd ydw i. Beth sy' yn y fasged?"

"Cacen siocled, banana blasus a brechdan gaws."

"Ga i gacen siocled?" "Na chei wir!"

"Ga i fanana blasus?" "Na chei wir!"

"Ga i frechdan gaws?" "Na chei wir! Mae Nain yn sâl ac hi piau nhw!"

Rhedodd a rhedodd a rhedodd y blaidd i ffwrdd yn flin.

Wedyn aeth Hugan Fach Goch i dŷ Nain.

Cnociodd ar y drws ...cnoc, cnoc, cnoc ac aeth i mewn i'r tŷ.

"Helo Hugan Fach Goch."

"Www Nain, mae gen ti lygaid mawr!" "Oes siŵr, i mi dy weld yn well."

"Www Nain, mae gen ti glustiau mawr!" "Oes siŵr, i mi dy glywed yn well."

"Www Nain, mae gen ti drwyn mawr!" "Oes siŵr, i mi dy arogli'n well."

"Www Nain, mae gen ti ddannedd mawr!" "OES siŵr - i dy fwyta di!"

"AAAA"

Yn ffodus, clywodd y Coediwr Cryf Hugan Fach Goch yn sgrechian a rhedodd i helpu.

Rhedodd a rhedodd a rhedodd y blaidd i ffwrdd drwy'r goedwig.

Yn y diwedd cafodd pawb bicnic blasus iawn - cacen siocled, banana blasus a brechdan gaws.